



OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

WELSH STATUTORY
INSTRUMENTS

2014 Rhif 2365 (Cy. 229)

2014 No. 2365 (W. 229)

ADDYSG, CYMRU

EDUCATION, WALES

Rheoliadau Cyngor y Gweithlu
Addysg (Aelodaeth a Phenodi)
(Cymru) 2014

The Education Workforce Council
(Membership and Appointment)
(Wales) Regulations 2014

NODYN ESBONIADOL

EXPLANATORY NOTE

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)

(This note is not part of the Regulations)

Mae adran 2 yn Rhan 2 o Ddeddf Addysg (Cymru) 2014 yn darparu bod Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru i barhau i fodoli ond y bydd yn newid ei enw i Gyngor y Gweithlu Addysg ("y Cyngor"). Mae Rhan 2 yn gwneud darpariaeth bellach mewn perthynas â'r Cyngor. Mae'r Rheoliadau hyn yn gwneud darpariaeth mewn perthynas ag aelodaeth y Cyngor a phenodi'r prif swyddog a deuant i rym ar 29 Medi 2014 ac eithrio'r darpariaethau hynny yn rheoliad 2 sy'n dod i rym ar 1 Ebrill 2015 pan ragwelir y bydd y Cyngor yn gwbl weithredol.

Section 2 in Part 2 of the Education (Wales) Act 2014 provides that the General Teaching Council for Wales is to continue to exist but will change its name to the Education Workforce Council ("the Council"). Part 2 makes further provision in relation to the Council. These Regulations make provision in relation to membership of the Council and the appointment of the chief officer and they come into force on 29 September 2014 except for those provisions in regulation 2 which come into force on 1 April 2015 when it is anticipated that the Council will be fully operational.

Mae Atodlen 1 i Ddeddf Addysg (Cymru) 2014 ("Deddf 2014") yn darparu y bydd 14 o aelodau yn cael eu penodi i'r Cyngor gan Weinidogion Cymru. Rhaid i saith o'r aelodau hynny gael eu penodi o blith enwebeion sefydliadau a nodir yn yr Atodlen i'r Rheoliadau hyn (rheoliadau 4 a 6). Caiff y saith sy'n weddill eu penodi gan Weinidogion Cymru heb enwebiad (rheoliadau 4 a 7).

Schedule 1 to the Education (Wales) Act 2014 ("the 2014 Act") provides that the Council will have 14 members appointed by the Welsh Ministers. Seven of those members must be appointed from nominees of organisations set out in the Schedule to these Regulations (regulations 4 and 6). The remaining seven will be appointed by the Welsh Ministers without nomination (regulations 4 and 7).

Mae rheoliad 5 yn nodi ar ba seiliau na fydd person yn gymwys i'w benodi. Mae'r ddarpariaeth hon yn adlewyrchu'r seiliau dros ddiswyddo fel y'u nodir ym mharagraff 6 o Atodlen 1 i Ddeddf 2014.

Regulation 5 sets out the grounds on which a person will not be eligible for appointment. This provision mirrors the grounds for removal from office set out in paragraph 6 of Schedule 1 to the 2014 Act.

Mae rheoliad 8 yn gwneud darpariaeth ynghylch llenwi'r swyddi gwag ymhlith aelodau'r Cyngor cyn i dymor swydd yr aelod hwnnw ddod i ben.

Regulation 8 makes provision about the filling of vacancies among members of the Council before the expiry of that member's term of office.

Mae rheoliad 9 yn gwneud darpariaeth ynghylch penodi prif swyddog y Cyngor.

Regulation 9 makes provision about the appointment of the chief officer of the Council.

Mae rheoliad 10 yn gwneud darpariaeth ynghylch y panel dethol y mae'n rhaid ei benodi mewn perthynas â phenodi'r prif swyddog.

Regulation 10 makes provision about the selection panel that must be appointed in relation to the appointment of the chief officer.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, ystyriwyd nad oedd yn angenrheidiol cynnal asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn.

The Welsh Ministers' Code of Practice on the carrying out of Regulatory Impact Assessments was considered in relation to these Regulations. As a result, it was not considered necessary to carry out a regulatory impact assessment as to the likely costs and benefits of complying with these Regulations.

2014 Rhif 2365 (Cy. 229)

2014 No. 2365 (W. 229)

ADDYSG, CYMRU

EDUCATION, WALES

Rheoliadau Cyngor y Gweithlu
Addysg (Aelodaeth a Phenodi)
(Cymru) 2014

The Education Workforce Council
(Membership and Appointment)
(Wales) Regulations 2014

Gwnaed 3 Medi 2014

Made 3 September 2014

*Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol
Cymru* 5 Medi 2014

Laid before the National Assembly for Wales
5 September 2014

Yn dod i rym 29 Medi 2014
*ac eithrio fel y darperir ar ei gyfer yn rheoliad
1(1)*

Coming into force 29 September 2014
except as provided for in regulation 1(1)

Mae Gweinidogion Cymru drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adrannau 2(2) a 47(1) o Ddeddf Addysg (Cymru) 2014(1), a chan baragraffau 4, 9(2) a 12 o Atodlen 1 iddi, yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn:

The Welsh Ministers in exercise of the powers conferred on them by sections 2(2) and 47(1) of, and by paragraphs 4, 9(2) and 12 of Schedule 1 to, the Education (Wales) Act 2014(1) make the following Regulations:

Enwi, cychwyn a chymhwyso

Title, commencement and application

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Cyngor y Gweithlu Addysg (Aelodaeth a Phenodi) (Cymru) 2014 a deuant i rym ar 29 Medi 2014 ac eithrio rheoliad 2 a ddaw i rym ar 1 Ebrill 2015.

1.—(1) The title of these Regulations is the Education Workforce Council (Membership and Appointment) (Wales) Regulations 2014 and they come into force on 29 September 2014 except for regulation 2 which comes into force on 1 April 2015.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru.

(2) These Regulations apply in relation to Wales.

Dirymu

Revocation

2. Mae'r Rheoliadau yn Atodlen 1 wedi eu dirymu.

2. The Regulations in Schedule 1 are revoked.

Dehongli

Interpretation

3. Yn y Rheoliadau hyn—

3. In these Regulations—

ystyr “aelod” (“*member*”) yw aelod o'r Cyngor;

“the 1996 Act” (“*Deddf 1996*”) means the Education Act 1996(2);

ystyr “y Cyngor” (“*the Council*”) yw Cyngor y Gweithlu Addysg;

“the 1998 Act” (“*Deddf 1998*”) means the Teaching and Higher Education Act 1998(3);

ystyr “Deddf 1996” (“*the 1996 Act*”) yw Deddf Addysg 1996(2);

(1) 2014 dccc 5.
(2) 1996 p. 56.

(1) 2014 anaw 5.
(2) 1996 c. 56.
(3) 1998 c. 30.

ystyr “Deddf 1998” (“*the 1998 Act*”) yw Deddf Addysgu ac Addysg Uwch 1998(1);

ystyr “Deddf 2014” (“*the 2014 Act*”) yw Deddf Addysg (Cymru) 2014; ac

ystyr “prif swyddog” (“*chief officer*”) yw prif swyddog y Cyngor.

“the 2014 Act” (“*Deddf 2014*”) means the Education (Wales) Act 2014;

“the Council” (“*y Cyngor*”) means the Education Workforce Council;

“chief officer” (“*prif swyddog*”) means the chief officer of the Council; and

“member” (“*aelod*”) means a member of the Council.

Aelodaeth

4. Rhaid i'r Cyngor gynnwys 14 o aelodau a benodir yn unol â rheoliadau 6 a 7.

Cymhwysra ar gyfer penodi

5. Nid yw unrhyw berson yn gymwys i gael ei benodi o dan reoliadau 6 neu 7—

- (a) pan fo'r person wedi ei wahardd o weithgaredd a reoleiddir yn ymwneud â phlant o fewn ystyr adran 3(2) o Ddeddf Diogelu Grwpiau Hyglwyf 2006(2);
- (b) pan fo'r person wedi ei wahardd rhag addysgu yn rhinwedd cyfarwyddyd o dan adran 142(1)(a) o Ddeddf Addysg 2002(3);
- (c) pan fo'r person wedi ei wahardd rhag cael ei gyflogi fel athro neu athrawes yn rhinwedd gorchymyn gwahardd o dan adran 141B o Ddeddf Addysg 2002;
- (d) pan wneir gorchymyn disgyblu mewn cysylltiad â'r person o dan Atodlen 2 i Ddeddf 1998 a bod y person yn dod yn anghymwys i'w gofrestru o dan adran 3 o Ddeddf 1998 yn rhinwedd y gorchymyn disgyblu hwnnw;
- (e) pan wneir gorchymyn disgyblu mewn cysylltiad â'r person o dan adran 26(4) o Ddeddf 2014 a bod y person yn dod yn anghymwys i'w gofrestru o dan adran 9 o Ddeddf 2014 yn rhinwedd y gorchymyn disgyblu hwnnw;
- (f) pan fo'r person wedi ei anghymhwyso rhag cael ei gyflogi fel athro neu athrawes mewn unrhyw ysgol yn rhinwedd gorchymyn sydd wedi ei wneud—
 - (i) gan Dribiwnlys Ysgolion Annibynnol o dan adran 470 o Ddeddf 1996(5), neu

Membership

4. The Council must consist of 14 members appointed in accordance with regulations 6 and 7.

Eligibility for appointments

5. No person is eligible for appointment under regulations 6 or 7 where—

- (a) the person is barred from regulated activity relating to children within the meaning of section 3(2) of the Safeguarding Vulnerable Groups Act 2006(1);
- (b) the person is prohibited from teaching by virtue of a direction under section 142(1)(a) of the Education Act 2002(2);
- (c) the person is prohibited from being employed as a teacher by virtue of a prohibition order under section 141B of the Education Act 2002;
- (d) a disciplinary order is made in respect of the person under Schedule 2 to the 1998 Act by virtue of which the person becomes ineligible for registration under section 3 of the 1998 Act;
- (e) a disciplinary order is made in respect of the person under section 26(3) of the 2014 Act by virtue of which the person becomes ineligible for registration under section 9 of the 2014 Act;
- (f) the person is disqualified from being employed as a teacher in any school by virtue of an order made—
 - (i) by an Independent Schools Tribunal under section 470 of the 1996 Act(4), or

(1) 1998 p. 30.

(2) 2006 p. 47.

(3) 2002 p. 32.

(4) Nid yw adran 26 o Ddeddf 2014 eto mewn grym ar y dyddiad y daw'r Rheoliadau hyn i rym. Rhagwelir y bydd adran 26 wedi ei chychwyn yn llawn ar 1 Ebrill 2015.

(5) Diddymwyd gan adran 215(2) o Ddeddf Addysg 2002 a Rhan 3 o Atodlen 22 iddi.

(1) 2006 c. 47.

(2) 2002 c. 32.

(3) Section 26 of the 2014 Act is not yet in force at the date these Regulations come into force. It is anticipated that section 26 will be fully commenced on 1 April 2015.

(4) Repealed by section 215(2) of, and Part 3 of Schedule 22 to, the Education Act 2002.

- (ii) gan yr Ysgrifennydd Gwladol neu Weinidogion Cymru o dan adran 471 o Ddeddf 1996(1); neu
- (g) pan fo'r person yn anghymwys i'w gofrestru fel athro neu athrawes, neu wedi ei anghymhwyso rhag bod yn athro neu athrawes mewn unrhyw ysgol neu sefydliad addysg bellach mewn rhan arall o'r Deyrnas Unedig.

- (ii) by the Secretary of State or the Welsh Ministers under section 471 of the 1996 Act(1); or
- (g) the person is ineligible for registration as a teacher, or disqualified from being a teacher in any school or further education institution in another part of the United Kingdom.

Aelodau a benodir gan Weinidogion Cymru ar ôl iddynt gael eu henwebu

6.—(1) Rhaid i Weinidogion Cymru geisio enwebiadau ar gyfer swydd aelod o'r Cyngor gan y sefydliadau a nodir yn Atodlen 2.

(2) Rhaid i Weinidogion Cymru benodi saith aelod o'r rhestr o bersonau a enwebir gan y sefydliadau a nodir yn Atodlen 2.

(3) Wrth benodi o dan baragraff (2), rhaid i Weinidogion Cymru, i'r graddau y bo'n bosibl, sicrhau bod pedwar o'r aelodau a benodir felly yn bersonau a enwebwyd gan sefydliad a nodir yn Rhan 1 o Atodlen 2.

(4) Pan fo sefydliad a nodir yn Atodlen 2 yn newid ei enw, ond nid yw ei amcanion wedi eu newid mewn ffordd berthnasol, mae'r cyfeiriad at y sefydliad yn yr Atodlen i'w ddarllen fel cyfeiriad at y sefydliad o dan ei enw newydd.

Aelodau a benodir gan Weinidogion Cymru heb iddynt gael eu henwebu

7. Rhaid i saith aelod gael eu penodi gan Weinidogion Cymru.

Swyddi gwag

8.—(1) Mae'r rheoliad hwn yn gymwys pan fo swydd wag yn codi ymhlith yr aelodau ac eithrio pan fo tymor swydd aelod yn dod i ben.

(2) Os yw'r swydd wag ymhlith aelodau a benodwyd o dan reoliad 6, rhaid i Weinidogion Cymru lenwi'r swydd wag drwy benodi person—

- (a) o'r rhestr o bersonau a ddarparwyd yn fwyaf diweddar gan yr enwebeion a enwebodd y person sydd wedi gadael y swydd;
- (b) os nad yw'n bosibl penodi person yn unol ag is-baragraff (a), o'r rhestr o bersonau a ddarparwyd yn fwyaf diweddar gan unrhyw enwebai arall a restrir yn yr un Rhan o Atodlen 2 â'r enwebai a enwebodd y person sydd wedi gadael y swydd; neu

Members appointed by the Welsh Ministers after nomination

6.—(1) The Welsh Ministers must seek nominations for the post of Council member from the organisations set out in Schedule 2.

(2) The Welsh Ministers must appoint seven members from the list of persons nominated by the organisations set out in Schedule 2.

(3) In making appointments under paragraph (2) the Welsh Ministers must, so far as possible, ensure that four of the members so appointed are persons nominated by an organisation set out in Part 1 of Schedule 2.

(4) Where an organisation set out in Schedule 2 changes its name, but its objects are not materially changed, the reference to the organisation in the Schedule is to be read as a reference to the organisation under its new name.

Members appointed by the Welsh Ministers without nomination

7. Seven members must be appointed by the Welsh Ministers.

Vacancies

8.—(1) This regulation applies where a vacancy occurs among members otherwise than by the expiry of a member's term of office.

(2) If the vacancy is among members appointed under regulation 6 the vacancy must be filled by the Welsh Ministers by appointing a person—

- (a) from the list of persons most recently provided by the nominees who nominated the person who has vacated office;
- (b) if it is not possible to appoint a person in accordance with sub-paragraph (a), from the list of persons most recently provided by any other nominee listed in the same Part of Schedule 2 as the nominee who nominated the person who has vacated office; or

(1) Diddymwyd gan adran 215(2) o Ddeddf Addysg 2002 a Rhan 3 o Atodlen 22 iddi.

(1) Repealed by section 215(2) of, and Part 3 of Schedule 22 to, the Education Act 2002.

- (c) os nad yw'n bosibl penodi person yn unol ag is-baragraffau (a) a (b), o'r rhestr o bersonau a ddarparwyd yn fwyaf diweddar gan unrhyw enwebai arall a restrir yn naill ai Rhan 1 neu Ran 2 o Atodlen 2.

(3) Os yw'r swydd wag ymhlith aelodau a benodwyd o dan reoliad 7—

- (a) rhaid i'r swydd wag gael ei llenwi drwy benodiad gan Weinidogion Cymru; a
- (b) pan fo'r person sydd wedi gadael y swydd yn berson cofrestredig rhaid i'r penodai fod o'r un categori o berson cofrestredig â'r un sydd wedi gadael y swydd.

(4) Mae person a benodir o dan y rheoliad hwn i llenwi swydd wag yn dal y swydd tan y dyddiad y byddai tymor swydd yr aelod y mae'r person hwnnw yn llenwi ei swydd wedi dod i ben.

(5) Pan na fo swydd wag wedi ei llenwi yn unol â'r rheoliad hwn, caiff y Cyngor lenwi'r swydd wag honno drwy benodiad dros dro.

(6) O ran unrhyw benodiad dros dro o dan baragraff (5)—

- (a) ni chaniateir iddo gael ei wneud ond pan fo'r swydd wag yn codi o fewn 6 mis i'r dyddiad y byddai tymor swydd yr aelod y mae'r person hwnnw yn llenwi ei swydd wedi dod i ben;
- (b) rhaid iddo fod ar gyfer tymor nad yw'n mynd y tu hwnt i'r dyddiad y byddai tymor swydd yr aelod y mae'r person hwnnw yn llenwi ei swydd wedi dod i ben; ac
- (c) rhaid iddo fod ar unrhyw delerau eraill a bennir gan y Cyngor.

Penodi prif swyddog

9.—(1) Hyd at 31 Mawrth 2015 a chan gynnwys y dyddiad hwnnw, rhaid i Gyngor Addysgu Cyffredinol Cymru benodi'r prif swyddog.

(2) O 1 Ebrill 2015 a chan gynnwys y dyddiad hwnnw, rhaid i'r Cyngor benodi'r prif swyddog.

(3) Mae telerau ac amodau penodiad person o dan baragraff (1)—

- (a) i'w pennu gan Gyngor Addysgu Cyffredinol Cymru; a
- (b) i'w cymeradwyo (ac unrhyw delerau ac amodau diwygiedig) gan Weinidogion Cymru.

(4) Mae telerau ac amodau penodiad person o dan baragraff (2)—

- (a) i'w pennu gan y Cyngor;
- (b) i'w hadolygu gan y Cyngor bob tair blynedd; ac

- (c) if it is not possible to appoint a person in accordance with sub-paragraphs (a) and (b), from the list of persons most recently provided by any other nominee listed in either Part 1 or 2 of Schedule 2.

(3) If the vacancy is among members appointed under regulation 7—

- (a) the vacancy must be filled by an appointment by the Welsh Ministers; and
- (b) where the person that has vacated office was a registered person the appointee must be from the same category of registered person as that which has vacated office.

(4) A person appointed under this regulation to fill a vacancy holds office until the date on which the term of office of the member whose vacancy that person fills would have expired.

(5) Where a vacancy has not been filled pursuant to this regulation the Council may fill that vacancy by a temporary appointment.

(6) Any temporary appointment under paragraph (5) must—

- (a) only be made where the vacancy occurs within 6 months of the date on which the term of office of the member whose vacancy that person fills would have expired;
- (b) be for a term not exceeding the date on which the term of office of the member whose vacancy that person fills would have expired, and
- (c) be on such other terms as the Council determine.

Appointment of chief officer

9.—(1) Up to and including the 31 March 2015 the General Teaching Council for Wales must appoint the chief officer.

(2) From and including the 1 April 2015 the Council must appoint the chief officer.

(3) The terms and conditions of a person's appointment under paragraph (1) are—

- (a) to be determined by the General Teaching Council for Wales; and
- (b) approved (and any revised terms and conditions) by the Welsh Ministers.

(4) The terms and conditions of a person's appointment under paragraph (2) are—

- (a) to be determined by the Council;
- (b) reviewed by the Council every three years; and

- (c) i'w cymeradwyo (ac unrhyw delerau ac amodau diwygiedig) gan Weinidogion Cymru.

- (c) approved (and any revised terms and conditions) by the Welsh Ministers.

Panel dethol prif swyddog

10.—(1) Rhaid i'r Cyngor hysbysebu unrhyw swydd wag ar gyfer swydd y prif swyddog mewn unrhyw gyhoeddiadau sy'n cylchredeg ledled Cymru a Lloegr y mae'n eu hystyried yn briodol.

(2) Rhaid i'r Cyngor benodi panel dethol—

- (a) i ddethol ar gyfer cyf-weld yr ymgeiswyr hynny sy'n addas ym marn y panel dethol;
- (b) i gyf-weld â'r ymgeiswyr hynny sy'n bresennol at y diben; ac
- (c) pan fo'r panel dethol yn ystyried ei bod yn briodol gwneud hynny, i argymhell un o'r ymgeiswyr y cyfwelodd y panel dethol â hwy i'r Cyngor i gael ei benodi.

(3) Rhaid i'r panel dethol ethol cadeirydd o blith ei aelodau.

(4) Yn dilyn pleidlais fwyafrifol gan aelodau'r Cyngor, caiff y Cyngor symud y cadeirydd i unrhyw banel dethol o'i swydd fel cadeirydd i'r panel dethol hwnnw ar unrhyw adeg.

(5) Rhaid i fwyafrif y personau ar unrhyw banel dethol fod yn aelodau'r cyngor.

(6) Rhaid i aelodaeth panel dethol gynnwys—

- (a) o leiaf un cynrychiolydd Gweinidogion Cymru; a
- (b) o leiaf un aelod annibynnol.

(7) Nid yw person i'w ystyried yn annibynnol at ddibenion paragraff (6)(b) os yw'r person—

- (a) yn aelod o'r Cyngor neu'n gyflogai iddo; neu
- (b) yn gyflogai i Lywodraeth Cymru.

(8) Pan fo'r pleidleisiau yn gyfartal, mae gan y cadeirydd neu, yn ôl y digwydd, y person sy'n gweithredu fel cadeirydd at ddibenion y cyfarfod, ail bleidlais neu bleidlais fwrw.

(9) Rhaid i unrhyw benderfyniad a wneir gan y panel dethol gael ei wneud drwy bleidlais sy'n cynrychioli mwyafrif absoliwt o'r holl bersonau ar y panel

Chief officer selection panel

10.—(1) The Council must advertise any vacancy in the post of the chief officer in such publications circulating throughout England and Wales as it considers appropriate.

(2) The Council must appoint a selection panel to—

- (a) select for interview such applicants for the post as the selection panel thinks fit;
- (b) interview such of those applicants as attend for the purpose; and
- (c) where the selection panel considers it appropriate to do so, recommend to the Council for appointment one of the applicants interviewed by the selection panel.

(3) The selection panel must elect a chair from among their number.

(4) Following a majority vote of the Council members the Council may remove the chair to any selection panel from the office of chair to that selection panel at any time.

(5) The majority of persons on any selection panel must be council members.

(6) The membership of a selection panel must include—

- (a) at least one representative of the Welsh Ministers; and
- (b) at least one independent member.

(7) A person is not to be regarded as independent for the purposes of paragraph (6)(b) if the person is—

- (a) a member or an employee of the Council; or
- (b) an employee of the Welsh Government.

(8) Where there is an equal decision of votes the chair, or as the case may be, the person who is acting as chair for the purposes of the meeting, has a second or casting vote.

(9) Any decision of the selection panel must be taken by a vote representing an absolute majority of all the persons on the panel.

Huw Lewis

Y Gweinidog Addysg a Sgiliau, un o Weinidogion Cymru
3 Medi 2014

Minister for Education and Skills, one of the Welsh Ministers
3 September 2014

Y RHEOLIADAU A DDIRYMWYD

REGULATIONS REVOKED

<i>Y Rheoliadau a ddirymwyd</i>	<i>Cyfeirnodau</i>	<i>Graddau'r dirymu</i>	<i>Regulations revoked</i>	<i>References</i>	<i>Extent of revocation</i>
Rheoliadau Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru (Cyfansoddiad) 1999	O.S. 1999/1619	Yn llawn	General Teaching Council for Wales (Constitution) Regulations 1999	S.I. 1999/1619	Fully
Rheoliadau Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru (Cyfansoddiad) (Diwygio) 1999	O.S. 1999/3185	Yn llawn	General Teaching Council for Wales (Constitution) (Amendment) Regulations 1999	S.I. 1999/3185	Fully
Rheoliadau Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru (Cyfansoddiad) (Diwygio) 2003	O.S. 2003/389 (Cy. 51)	Yn llawn	General Teaching Council for Wales (Constitution) (Amendment) Regulations 2003	S.I. 2003/389 (W. 51)	Fully
Rheoliadau Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru (Cyfansoddiad) (Diwygio) 2007	O.S. 2007/812 (Cy. 69)	Yn llawn	General Teaching Council for Wales (Constitution) (Amendment) Regulations 2007	S.I. 2007/812 (W. 69)	Fully
Rheoliadau Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru (Cyfansoddiad) (Diwygio) 2009	O.S. 2009/1352 (Cy. 128)	Yn llawn	General Teaching Council for Wales (Constitution) (Amendment) Regulations 2009	S.I. 2009/1352 (W. 128)	Fully
Rheoliadau Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru (Cyfansoddiad) (Diwygio) 2012	O.S. 2012/169 (Cy. 28)	Yn llawn	General Teaching Council for Wales (Constitution) (Amendment) Regulations 2012	S.I. 2012/169 (W. 28)	Fully

Y SEFYDLIADAU SYDD Â'R HAWL
I ENWEBU PERSONAU I'W PENODI
I'R CYNGOR

RHAN 1

1. Undeb Cenedlaethol yr Athrawon (Cymru).
2. Cymdeithas Genedlaethol yr Ysgolfeistri ac Undeb yr Athrawesau (Cymru).
3. Cymdeithas Arweinwyr Ysgolion a Cholegau.
4. Cymdeithas Broffesiynol yr Athrawon.
5. Cymdeithas Genedlaethol y Prifathrawon yng Nghymru.
6. Undeb Cenedlaethol Athrawon Cymru.
7. Cymdeithas yr Athrawon a'r Darlithwyr.
8. Undeb Prifysgolion a Cholegau.
9. UNSAIN.
10. GMB.
11. Unite: Uno'r Undeb.
12. Grŵp Aspect Undeb Prospect.
13. TUC Cymru.

RHAN 2

14. Colegau Cymru.
15. Y Coleg Cymraeg Cenedlaethol.
16. Cymdeithas Cyfarwyddwyr Addysg Cymru.
17. Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru.
18. Cydffederasiwn Cymdeithasau Llywodraethwyr Ysgolion Cymru.
19. Yr Eglwys yng Nghymru.
20. Gwasanaeth Addysg yr Eglwys Gatholig.
21. Addysg Uwch Cymru.
22. Cyngor y Prifysgolion ar gyfer Addysgu Athrawon.
23. Cyngor Ysgolion Annibynnol Cymru.

ORGANISATIONS ENTITLED TO
NOMINATE PERSONS FOR
APPOINTMENT TO THE COUNCIL

PART 1

1. National Union of Teachers (Cymru).
2. National Association of Schoolmasters Union of Women Teachers (Cymru).
3. Association of School and College Leaders.
4. Professional Association of Teachers.
5. National Association of Head Teachers in Wales.
6. Undeb Cenedlaethol Athrawon Cymru.
7. Association of Teachers and Lecturers.
8. University and College Union.
9. UNISON.
10. GMB.
11. Unite the Union.
12. Aspect Group of Prospect Union.
13. Wales TUC.

PART 2

14. Colleges Wales.
15. Y Coleg Cymraeg Cenedlaethol.
16. Association of Directors of Education in Wales.
17. Welsh Local Government Association.
18. Confederation of School Governors Associations in Wales.
19. The Church in Wales.
20. The Catholic Education Service.
21. Higher Education Wales.
22. Universities Council for the Education of Teachers.
23. Welsh Independent Schools Council.

24. Cymdeithas CYSAGau Cymru(1).

25. Cymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru.

26. Ffederasiwn Busnesau Bach.

27. Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru.

© 2014 Hawlfraint y Goron 2014

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y Deyrnas Unedig gan The Stationery Office Limited o dan awdurdod ac arolygiaeth Carol Tullo, Rheolwr Gwasg Ei Mawrhydi ac Argraffydd Deddfau Seneddol y Frenhines.

24. Wales Association of SACREs(1).

25. Association of Directors of Social Services Cymru.

26. Federation of Small Businesses.

27. Wales Council for Voluntary Action.

© Crown copyright 2014

Printed and Published in the UK by the Stationery Office Limited under the authority and superintendence of Carol Tullo, Controller of Her Majesty's Stationery Office and Queen's Printer of Acts of Parliament.

(1) Sefydliir cynghorau ymgynghorol sefydlog ar addysg grefyddol (CYSAGau) yn rhinwedd adran 390 o Ddeddf Addysg 1996 (p. 56).

(1) Standing advisory councils for religious education (SACREs) are established by virtue of section 390 of the Education Act 1996 (c. 56).

OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

WELSH STATUTORY
INSTRUMENTS

2014 Rhif 2365 (Cy. 229)

2014 No. 2365 (W. 229)

ADDYSG, CYMRU

EDUCATION, WALES

Rheoliadau Cyngor y Gweithlu
Addysg (Aelodaeth a Phenodi)
(Cymru) 2014


The Education Workforce Council
(Membership and Appointment)
(Wales) Regulations 2014

£6.00

W2365/09/14

ON

ISBN 978-0-348-10989-4



9 780348 109894